**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd yn rhithiol ar Ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2024**

**Presennol:** Mr Alan Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Wyn Evans, Keith Henson, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Mark Strong ynghyd a Mr Andrew Blackmore a Mrs Caroline Whitby.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Gareth Davies (Aelod Cabinet), Rhodri Evans, Hugh Hughes a Matthew Vaux (Aelod Cabinet).

**Archwilio Cymru:** Ms Carys Bates, Mr Jason Blewitt, Ms Lucy Herman a Mr Derwyn Owen.

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael a'r Swyddog Adran 151; Mr Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol – Cyllid Craidd; Mr Mark Bridges, Rheolwr Gwasanaeth; Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro; Mrs Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol; Mrs Katy Sinnett-Jones, Swyddog Llywodraethu; Mr Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter; Miss Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(09.30am-10.33am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Elizabeth Evans am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.

**2 Materion Personol**

Dim.

**3 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 5.

**4 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23**

Ystyriwyd y diweddariad am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23. Nid oedd dim newidiadau wedi'u gwneud i'r Datganiad ers iddo gael ei ystyried yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2024. Dywedwyd y byddai Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23 yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw fel y gellid ei gymeradwyo.

**CYTUNWYD** i:

i) nodi ac ystyried ei gynnwys; ac
ii) argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23.

**5** **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael yngl?n â Datganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion 2022/23**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael Ddatganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer 2022/23 gan dynnu sylw at faterion gweithdrefnol a chyflwyniadol.

Cafwyd sylwadau a chwestiynau gan y Pwyllgor am rai materion yn y cyfrifon.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael a'r Rheolwr Corfforaethol - Cyllid Craidd a'u staff am eu gwaith caled wrth baratoi'r Datganiad.

**CYTUNWYD** argymell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion a Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer 2022/23 fel y'u cyflwynwyd gan nodi y byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno argymhelliad y Pwyllgor gerbron y Cyngor y prynhawn hwnnw.

**6** **Adroddiad ISA260**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Derwyn Owen o Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Tynnodd Mr Owen sylw'r Aelodau at y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Cafodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael a'i swyddogion eu llongyfarch am eu gwaith wrth gwblhau'r archwiliad.

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael drosolwg o'r cynllun a oedd ar waith i fynd i'r afael â'r materion Sylweddol Eraill a oedd yn codi o'r archwiliad.

Esboniodd Mr Owen fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon 2021-22, unwaith y byddai'r Awdurdod Lleol wedi darparu Llythyr Cynrychiolaeth iddyn nhw ar ôl cyfarfod y Cyngor Llawn yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw.

Diolchodd Aelodau'r Pwyllgor i bawb oedd yn ymwneud â'r mater, i Swyddogion y Cyngor ac i Archwilio Cymru am y cydweithrediad a ddangoswyd wrth archwilio'r cyfrifon, gan groesawu adroddiad a oedd yn gadarnhaol iawn.

**CYTUNWYD**:

i) i nodi cynnwys yr adroddiad;
ii) i longyfarch y gwasanaeth am yr adroddiad rhagorol; a
iii) y byddai adroddiad cynnydd ynglŷn â mynd i'r afael â'r materion Sylweddol Eraill a oedd yn codi o'r archwiliad yn cael ei gynnwys ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**